**COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR.**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 22.09.2022 @7.00pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID.**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Cadeirydd y Cyngh. Ifan Lloyd Davies, bawb i'r Cyfarfod.
Cynhaliwyd munud o osteg er cof am EM Elisabeth 11, a fu farw ar yr 8fed o Fedi 2022.

2. **YN BRESENNOL**
Cyngh. Roland Bago; Cyngh. Alun Price Jones; Cyngh. Richard Jones; Cyngh Gareth Owen; Cyngh Elgan Williams.
Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies.
Eleri Thomas (Clerc).
Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Cyngh. Mel Briant, Ieuan Davies, Angharad Jones; Non Jones & Doug Rowbotham am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Diweddarodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu aelodau am ddigwyddiadau o fewn yr ardal. Adroddodd fod y misoedd olaf wedi bod yn dawel.

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 2 ddigwyddiad yn ymwneud â gwersylla yn ardal Llynnoedd Teifi.
- Byrgleriaeth : 0
- Difrod Troseddol: 0
- Dwyn : 0
- Trais/ Ymosodiad: 0
- Galwadau Twyll/ Sgam:- Galwadau Oer yn datgan bod y derbynnydd mewn dyled yn ariannol i'r person a oedd yn gwneud yr alwad. Cynhaliwyd cyrsiau yn ymwneud â sgam yn Neuadd Pantyfedwen.

  Roedd unigolion yn honni mai aelodau'r Heddlu oeddynt ac yn hysbysu'r cyhoedd bod eu cyfrifon wedi eu cyfaddawdu ac y dylid trosglwyddo eu harian i gyfrif arall. Doedd neb wedi dioddef oherwydd y twyll hwn.

5. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU**
Dim wedi'i ddatgan.

6. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 16EG MEHEFIN 2022**
**CYNIGIWYD** (Y Cyngh. Richard Jones), **EILIWYD** (Y Cyngh. Elgan Williams ) a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion Cyfarfod yr 16eg o Fehefin 2022, yn gywir.
Cânt eu harwyddo gan y Cadeirydd.

7. **MATERION YN CODI**
**7.1 AROLWG ROSPA Ardal Chwarae Pantyfedwen 2022:** Bydd y Cyngh. Gareth Owen yn clustnodi sylw pellach i'r Adroddiad yn ystod y cyfarfod nesaf.

**7.2** **Argyfwng Wcrain:** Trefnwyd Bore Coffi ar gyfer yr Hydref.

**7.3** **Diffibrilwyr o fewn y Pentref:** Gohebiaeth oddi wrth Pauline Bett, Ymatebwr Cyntaf Cymunedol WAST yn sôn ei bod wedi cysylltu â Clare Hughes a Ceredig, Siop Bentref y Bont sydd wedi cytuno i ymwneud â’r swydd o Warchediaeth Diffibrilwyr y Pentref ar gyfer Neuadd Pantyfedwen a’r Siop.

**Cytunwyd i brynu diffibriliwyr ar gyfer Ffair Rhos, mewn cyfarfod cynt.**
Diffibrilwyr Calan Hearts
**Diffibrilwyr Mindray C1A , £1045.00 ond wrth ystyried y cyfraniad o £200, y cyfraniad isafwm ar gyfer y diffibrilwyr yn unig oedd £845.00 + £8 Post & Chludiant.**

Wedi'i gynnwys gyda Diffibriliwyr Mindray C1A oedd: Batri AED
Padiau AED Oedolyn/Plentyn
Llewys Cario
Pecyn Achub AED
Arwydd Wal AED
Sesiwn Hyfforddi Am ddim ar-lein wedi'i recordio Codi Ymwybyddiaeth Diffibrilwyr ac Atgyfodi Cardio Ysgyfeiniol

**CYTUNWYD ARCHEBU**
Diffibriliwyr Mindray C1A & Hanger Wal Fewnol: Rhodd Isafswm: **£895.00**
Ynglŷn â'r Cabinet: Cytunwyd i ofyn i Lyn.

**7.4** **Llifogydd Afon Teifi yng nghyffiniau’r Llew Coch**: Ymateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn sôn mai nid hwy sy’n gyfrifol am glustnodi sylw i’r dŵr sy’n cronni ar y ffordd ond hytrach yr Awdurdod Lleol. Cytunwyd i gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru unwaith yn rhagor i egluro bod angen carthu’r afon oherwydd rhwystr. Dŵr hefyd yn cronni’n Seler y Llew Coch ar adegau. **PENDERFYNWYD** trefnu cyfarfod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.
Adroddwyd bod coed wedi gordyfu yn y cyffiniau. Penderfynwyd cysylltu â Brian, Cyngor Sir Ceredigion am ragor o wybodaeth.

**7.5** **Glan-yr-Afon: Canclwm Japan yn broblem**. Roedd Rachel Mills, Cyngor Sir Ceredigion o’r farn mai’r Cyngor Cymuned oedd perchennog y darn hwn o dir ac o’r oherwydd gallai gymryd camau ynglŷn â’r mater. Cytunwyd i drin y canclwm fis Mai nesaf. Hefyd i edrych ar dogfennau Cofrestrfa Tir ym meddiant y Cyngor Cymuned.

**7.6** **Chwynnu/ Casglu sbwriel o gwmpas y pentref:** wedi cyflawni ar ddydd Mercher 15$^{fed}$ Gorffennaf 2022 ar gyfer yr Eisteddfod Genendlaethol 2022.

**7.7** **Cynllun Grant: Lleoedd Natur:** i glustnodi sylw pellach i’r cynllun.

**7.8** **Un Llais Cymru : Cyfarfod: 22$^{ain}$ Mehefin 2022.** Cllr Ieuan Davies wedi mynychu’r Cyfarfod. Cofnodion ynghlwm (Atodiad1)

**7.9** **Cronfa Treftadaeth Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol** - Bydd cynllun grant Lleoedd Lleol dros Natur unwaith eto ar agor ar gyfer ceisiadau o ddydd Iau 9 Mehefin 2022. Mae £920,000 ar gael i'w ddyrannu tan fis Mawrth 2023.
www.heritagefund.org.uk/funding am fwy o fanylion - rcarter@onevoicewales.wales
*i drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.*

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen:** gwahoddiad i bob Cynghorydd Cymuned i fynychu'r Noson Goffi yn Neuadd Pantyfedwen ar nos Wener 23 Medi 2022: cytunwyd i gyflwyno £150.

**8.2** **Un Llais Cymru:** Lleoedd hyfforddi gweminar am ddim.

**8.3** **Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 2) / Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol** (dilynwch ymlaen o Gofnod: 7.9). Nod y gronfa hon yw cryfhau rhwydwaith gwydnwch Cymru o safleoedd tir a morol gwarchodedig, gan gefnogi adferiad natur wrth fynd ati i annog ymgysylltu â'r gymuned. Nodwyd er gwybodaeth.

**8.4** **Llywodraeth Cymru**: Ymgynghoriad Treth Gyngor Decach: cau 4 Hydref 2022. Bydd Un Llais Cymru yn paratoi ymateb i'r Ymgynghoriad hwn.

**8.5** **Cyfleusterau Cyhoeddus**: gohebiaeth gan Mrs Mair Jones yn gofyn a ellid gosod Cyfleusterau Cyhoeddus yn y Pentref. Eglurir bod grant o £500 gan Gyngor Sir Ceredigion ar gael ar un adeg. Cytunwyd i ymchwilio ymhellach a gofyn i'r Llew Coch a'r Capel tybed a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn darparu'r cyfleuster hwn, pe bai'r grant ar gael.
**Penderfynwyd diolch i'r Gyngh**. Mair Jones am ei llythyr ac am ei gwaith fel Cynghorydd Cymuned.

**8.6** **Gwobrau Dewi Sant:** Gwobrau cenedlaethol Cymru: gofyn am enwebiadau. Yn ei 10fed flwyddyn , Gwobrau Dewi Sant yw'r gwobrau cenedlaethol dros Gymru gan adlewyrchu a dathlu dyheadau Cymru a'i dinasyddion fel gwlad fodern, fywiog sy'n gwerthfawrogi arloesedd, ysbryd cymunedol ac yn anad dim, ei phobl.

**8.7** **Un Llais Cymru:** Pwysigrwydd Cynghorau Cymuned a Thref wrth adeiladu mannau gwydn ar gyfer natur: Cynhadledd ar-lein: Dydd Iau 27 Hydref 2022.

**8.8** **Digwyddiadau Gweithdy Gogledd a De Cymru Llywodraeth Cymru**: Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ar draws pob agwedd o fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal cyfranogiad gweithredol unigolyn mewn democratiaeth leol trwy sefyll am swydd etholedig.
Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a chynyddu cyfleoedd i grwpiau a dangynrychiolir i chwarae rôl lawn yn cefnogi a chynrychioli eu cymunedau.
7 Rhagfyr 2022: De Cymru.

**8.9** **Pecyn Cymorth Ymgyrch y GIG:** Helpwch ni i'ch Helpu Chi: yn cynnwys Ymgynghoriadau Rhithwir, rôl fferyllwyr, y Cynllun Anhwylderau Cyffredin a sut i gael mynediad iddo; Iechyd llafar gan gynnwys archwiliadau deintyddol; iechyd llygaid ayyb.

**8.10** **"Mae ar eu cyfer"** diweddariad ymgyrch: Nod ymgyrch "Mae ar eu cyfer" yw codi ymwybyddiaeth y bydd lleihau torri gwair ar ymyl ffyrdd a glaswelltiroedd amwynderau yn caniatáu i laswellt a blodau gwyllt dyfu. Mae hyn yn creu gwell cynefin i 'Nhw': infertebratau, adar, mamaliaid bach, amffibiaid ac ymlusgiaid.
Mae animeiddiad byr wedi cael ei rannu ar Drydar @WGClimateChange.
Rhannwch/ail-drydar os gwelwch yn dda:

Welsh Government Climate Change on Twitter: "Noticed your local road verge and amenity grasslands haven't been cut? There's a reason! It's for them – to protect and support wildlife #WildWales 🌼🦋🎀 https://t.co/S5phZYsAhj" / Twitter

**8.11. Gohebiaeth Pellach: er gwybodaeth.**

**9. CYLLID**

**9.1 Torri gwair o gwmpas y pentref dros fisoedd yr haf.** Mr Dilwyn Benjamin £1,840. TAW £368 CYFANSWM £2,208
Mynedfa i'r Pentref x6 £750; Neuadd Pantyfedwen x 6 £960, 2 x Glanyrafon £130.

**9.2 Neuadd Pantyfedwen –** Hurio Ystafell Gyfarfod £191.

**9.3 Costau ynni ar gyfer goleuo goleuadau stryd rhwng hanner** nos a 5am ar gais y Cyngor Cymuned am gyfnod 1af Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022: £308.82 TAW £61.76 CYFANSWM: £370.58.

**9.4 Llofnodi Sieciau: rhai ag awdurdod ar hyn o bryd:** 2/3 Clare Hughes, Non Jones, Doug Rowbotham. **Penderfynwyd clustnodi sylw i fancio ar-lein.**

**9.5 Cyflog y clerc: Mehefin** 2022 £193.83.

**9.6 Costau'r Clerc** £53.55

**9.7 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:** Ffurflenni Blynyddol: i'w cwblhau erbyn 30 Medi 2022. DIM wedi hawlio.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Cais Cynllunio:** A220336: Lleoliad: Fferm yr Abaty Fawr, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, SY25 6ES. Cynnig: Addasu Cytundeb S106 dyddiedig 19 Awst 2020 o ganiatâd cynllunio A190989, dileu 8ha. Ymgeisydd: i Arch. Arsylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiadau.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Cytunwyd i dynnu'r bynting o gwmpas y pentref,** arwyddion (gofyn i'r Ysgol), baneri i lawr yn ystod y penwythnos canlynol.

**11.2 Canghennau'n ymlwybro i wifrau** uwchben yn ardaloedd cyfagos Troedrhiwdolau: i'w hadrodd at sylw CS Ceredigion.

**11.3 Mae tair coeden angen eu tocio ar Stad Maesydderwen.**
I adrodd at sylw CS Ceredigion & Barcud.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Misol Nos Iau 20fed Hydref 2022 am 7pm.**

============================================ (Arwyddwyd/ Dyddiad)